**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 MAI 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ar ddydd Mercher, 26 Mai 2021.

**PRESENT: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddogion Cynllunio, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Christine Jones y Cynghorydd Richard Lloyd fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Bithell. Ni chyflwynwyd unrhyw enwebiadau eraill.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Richard Lloyd fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2. DATGAN CYSYLLTIAD

Yn dilyn cyngor gan Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, datganodd y Cynghorydd Paul Johnson gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 7.3 (062912) y rhaglen.

## 3. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau i ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir Y Fflint:

https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4859&Ver=4&LLL=1

## 4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2021 fel cofnod cywir, fel y cynigwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Chris Bithell a Richard Lloyd.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

5. **EITEMAU I'W GOHIRIO**

Awgrymodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y dylid gohirio eitem rhif 7.2 – (052236) - Cais Amlinellol – ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig yn Atlas Yard, Ffordd Corwen, Pontybotgyn. Argymhellodd y Prif Swyddog y dylid gohirio'r cais oherwydd bod materion heb eu penderfynu yn ymwneud â'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) er mwyn caniatáu i wybodaeth ddiwygiedig gael ei derbyn gan yr asiant.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Lloyd y dylid gohirio'r cais ar y sail bod yr asiant yn cyflwyno'r wybodaeth ofynnol o fewn y 3 wythnos nesaf (erbyn 15 Mehefin 2021). Os na fydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno, neu'n parhau'n anfoddhaol, yna dylid cynnwys yr eitem yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Chris Bithell.

Wrth fynd i bleidlais, cytunwyd i ohirio'r eitem.

**PENDERFYNWYD:**

Gohirio eitem rhif 7.2 – (052236) y rhaglen - Cais Amlinellol ar gyfer ddatblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig yn Atlas Yard, Ffordd Corwen, Pontybotgyn.

6. **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

7. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd un aelod o'r wasg a dau aelod o'r cyhoedd hefyd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a gorffennodd am 2:10pm)

**..............................**
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 26 MAI 2021**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061790 | Cyngor Cymuned Queensferry | Cais llawn – datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer 25 annedd fforddiadwy, man agored cyhoeddus gyda chysylltiadau newydd i gerddwyr, tirlunio, mynediad i'r briffordd, gorsaf bwmpio a chynlluniau ar gyfer enillion bioamrywiaeth net ac arafu dŵr wyneb ar dir wrth ymyl 150 Mancot Lane, Mancot. | Darllenodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ddatganiad a gyflwynwyd gan Mr. R. McCann, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr Justin Paul, asiant ar ran Cymdeithas Tai Wales & West o blaid gohirio'r cais<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Bob Connah, fel Aelod Ward leol gyfagos, yn erbyn y cais. | Gwrthod y caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad. |
| 052236 | Cyngor Cymuned Llanfynydd | Cais Amlinellol - datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig yn Atlas Yard, Ffordd Corwen, Pontybotgyn. | | Gohirio'r eitem ar y sail bod yr asiant yn cyflwyno'r wybodaeth ofynnol o fewn y 3 wythnos nesaf (erbyn 15 Mehefin 2021). Os na fydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno, neu'n parhau'n anfoddhaol, yna gall yr eitem gael ei chynnwys yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio. |
| 062192 | Cyngor Cymuned Brynffordd | Cais llawn – estyniad ac addasiadau i greu ystafell fyw a chyntedd/mynedfa fwy ynghyd â 2 ystafell wely gydag en-suite ar y llawr gwaelod a 6 ystafell wely gydag en-suite ar y llawr cyntaf | Siaradodd Mr. C. Thomas, Asiant, o blaid y cais. | Rhoi'r caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi eu gosod yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | yn The Crooked Horn Inn, Bryn Sannan, Brynffordd. | | |